Alawon a Chaneuon Sesh Sŵn Nadolig 2021



Ffiol Wassael, crochendŷ Ewenni, o ganol y 19eg ganrif

(6) The night is dark

Mae'r nos yn ddu

(THE BABE IN THE MANGER)

(Y BABAN YN Y PRESEB)

Doh = G.



G D G Am D7

1. Mae'r nos yn ddu, a gwynt nid oes, Un ser - en sy'n



G G D G

y nef, A nin - nau'n croes - i maes a bryn, I'r



Am D7 G C D G

fan y gor-wedd ef, Holl O - baith dyn yw ef.

2 Nid oes ogoniant yn y fan,
Dim ond yr eiddo ef,
A'r goleu mwyn ar wyneb Mair,
Fel gweddi tua'r nef,
O galon mam i'r nef.

3 Nid mangre geni twysog yw,
Nid man i lawen lu;
Er hynny, clywodd nef a llawr
Ganiadau'r engyl fry,
Orfoledd engyl fry.

4 O! Faban glân, mor brudd yw'n bron
Gan wae sy'n gwywo'n gwedd!
O! canwn iti'r bore hwn
Ganiadau newydd hedd,
Ganiadau bythol hedd!

Carol y blwch

Hen garol
Tr. E. Llewelyn Jones, 1850-91



18. Carol y Blwch



Gwrandawed pob enaid ar gennad o'r llys
A ddaeth o Gaersalem i Fethlem ar frys
Pob organ mewn cywair, pob telyn mewn hwyl
A myrdd o angylion yn cadw dydd Gŵyl.

Arweiniwyd rhyw seren uwch Bethlem a'i phyrth
I ddangos i'r doethion arwyddion o'r wyrth;
O Gabriel, O Gabriel, rhaid dangos y tlws
A dos â'r bugeiliaid i ymyl y drws.

Fe redodd bendithion 'rôl agor y blwch
O'i fynwes i ddynion, rai llymion y llwch;
I dair mil o lestri fe redodd mor rhydd
Nes llanwodd y cyfan cyn hanner y dydd.

Blwch lanwodd gostrelau Manasseh a Saul
Blwch llawn o drysorau i ninnau sy'n ôl;
Blwch saint ac angylion, anwylion y nen,
Mae'n Alpha, Omega i ninnau. Amen.

Nos Galan



Trefniant Meurig Williams

D D G D A D
Oer yw'r gwr sy'n methu caru, Ffal la la la la, la la la la,

D D G D A D
Hen fynyddoedd annwyl Cymru, Ffal la la la la, la la la la,

A D D E A
Iddo ef a'u câr gynhesaf, Ffal la la, la la la, la la la,


D D G D A D
Gwyliau llawen flwyddyn nesaf, Ffal la la la la, la la la la.

I'r helbulus oer yw'r biliau, Ffal la la etc.
Sydd yn dyfod yn y Gwyliau, Ffal la la etc.
Gwrando bregeth mewn un pennill, Ffal la la etc.
Byth na waria fwy na'th ennill, Ffal la la etc.

Oer yw'r eira ar Eryri, Ffal la la etc.
Er fod gwrthban gwlanen arni, Ffal la la etc.
Oer yw'r bobol na ofalon, Ffal la la etc.
Gwrdd a'u gilydd ar Nos Galan, Ffal la la etc.

Y dots o wefan arbennig Meurig Williams (gyda rhai man newidiadau), sesiwn.com

Y Wassael



Dymunwn ich' lawenydd
I gynnal blwyddyn newydd;
Tra paro'r gŵr yn tincian cloch,
Well, well y boch chwi beunydd.

Ffarwel ich', foneddigion,
Mi gawsom groeso ddigon:
Bendith Duw fo ar eich tai,
A phob rhyw rai o'ch dynion.

THE WASSAIL

This is the name of the maiden / That awakens with the stars / And this is the much-acclaimed Wassail / That loves being merry. // We wish you happiness / Throughout the new year; While that man rings the bell / May you be well every day. // Farewell you gentle people, / We had a great welcome, / The blessing of God be on your house / And on your kith and kin.

Siôn Corn

trfn. Delyth Hopkins Evans





Cymerwch ofal a mwynhewch y Gwyliau!